

The Eurekas 2023



Y canllawiau a'r telerau a'r amodau ar gyfer yr her

Dewch o hyd i'r ffisegydd sydd ynoch.

Meini prawf ar gyfer cyflwyno cais

1. Gall y cais fod ar unrhyw ffurf: fideo, recordiad sain, darn o gelf, cerflun, darn o farddoniaeth, neu hyd yn oed rywbeth yr ydych wedi'i bobï, er enghraifft.
2. Rhaid ei fod yn ateb y cwestiwn hwn: Sut y mae ffiseg yn bwydo eich brwdfrydedd? Ystyriwch beth yr ydych yn hoffi ei wneud fwyaf, neu meddyliwch am fater neu achos yr ydych yn wirioneddol frwdfrydig yn ei gylch, neu meddyliwch am eich arwr hyd yn oed – rhywun enwog yr ydych yn ei edmygu. Penderfynwch beth yr ydych yn teimlo fwyaf brwdfrydig yn ei gylch, yna dangoswch i ni wedyn pa ran y mae ffiseg yn ei chwarae ynddo.
3. Rhaid cyflwyno llythyr eglurhaol byr, nad yw'n cynnwys mwy na 200 o eiriau, gyda'r cais, sy'n esbonio perthynas y darn â'r thema.
4. Ni ddylai fideos fod yn hirach na 60 eiliad; ni ddylai ffeiliau fod yn fwy na 10MB o faint; ac ni ddylai darnau ysgrifenedig gynnwys mwy na 600 o eiriau.
5. Dylai ceisiadau ddangos y myfyrwyr yn rhyngweithio â ffiseg mewn modd creadigol sydd efallai'n annisgwyl.

Sut y mae ffiseg yn bwydo eich brwdfrydedd?

Defnyddiwch eich doniau a dangoswch i ni sut y mae ffiseg yn ymwneud â'r pethau yr ydych yn frwdfrydig yn eu cylch y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Rheolau cyffredinol

6. Ni chodir ffi am gymryd rhan yn y gystadleuaeth, ac mae'n agored i bob myfyriwr yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon.
7. Rhaid bod yr ymgeiswyr rhwng 11 ac 16 oed pan gaiff y prosiect ei gyflwyno i'r gystadleuaeth.
8. Caiff pob ymgeisydd gyflwyno un prosiect yn unig, naill ai fel unigolyn neu fel aelod o dîm.
9. Rhaid nad yw timau'n cynnwys mwy na phedwar myfyriwr.
10. Bydd y cyfnod ar gyfer cyflwyno ceisiadau'n agor ar 27 Mawrth 2023 ac yn cau ar 12 Mehefin 2023.

11. Rhaid i bob cais gael ei gyflwyno gan riant/gofalwr neu athro/athrawes ar ran yr ymgeisydd. Ni fyddwn yn gallu beirniadu ceisiadau a gyflwynir gan fyfyrwyr, a dim ond â'r rhiant/gofalwr neu'r athro/athrawes a gyflwynodd y cais y byddwn yn cyfathrebu. Dylech sicrhau bod pob cais yn cydymffurfio â pholisi diogelu eich ysgol.
12. Os yw'r cais yn cael ei gyflwyno gan athro/athrawes, rhaid iddo/iddi sicrhau ei fod/bod yn gyntaf wedi cael - yn unol â gweithdrefnau arferol yr ysgol ar gyfer cael caniatâd rhiant - y caniatâd angenrheidiol gan rieni/gofalwyr yr ymgeiswyr i gyflwyno'r cais ac i'w ddefnyddio fel yr eglurir yn y telerau hyn.



13. Yn achos ceisiadau gan grwpiau, rhaid bod pob un o aelodau'r tîm yn mynd i'r un ysgol - ond gallant fod mewn dosbarthiadau neu flynyddoedd gwahanol.
14. Ni all ceisiadau fod yn anorffenedig pan gânt eu cyflwyno. Ni fyddwn yn caniatáu i geisiadau gael eu haddasu'n nes ymlaen, felly dim ond ceisiadau gorffenedig y dylech eu cyflwyno.
15. Drwy gyflwyno cais, rydych yn rhoi i'r Sefydliad Ffiseg hawl fyd-eang, derfynol heb freindal i gyhoeddi a dosbarthu'r cais ar ei sianel YouTube dan Drwydded Ryngwladol Priodoli-Anfasnachol-Anneilliadol 4.0 Creative Commons (<https://creativecommons.org/licenses/by-nc-nd/4.0/>) ac ar ei wefannau ac yn ei gyfrifon ar gyfryngau cymdeithasol. Bydd gan y Sefydliad Ffiseg hawl i addasu'r cais fel y bo raid er mwyn arfer yr hawl hon i gyhoeddi.

Beirniadu a gwobrau

16. Bydd pob prosiect a gyflwynir yn cael ei adolygu gan banel o feirniaid. Bydd y beirniaid yn asesu'r ceisiadau ar sail y meini prawf canlynol:
 - Perthnasedd: a yw'r cais yn ymateb i'r briff?
 - Gwreiddioldeb a chreadigrwydd: a yw'r cais yn unigryw, o ran ei ffurf a'i gynnwys?
 - Ansawdd: a yw'r cais yn gywir yn dechnegol ac a yw wedi'i lunio yn dda?
 - Cynrychiolaeth: a yw'r cais yn adlewyrchu gwerthoedd yr ymgyrch?
17. Bydd y cais buddugol yn cael £1,000/€1,200, yn ogystal â £250/€300 i'w ysgol. Bydd y sawl a gyflwynodd gais fel grŵp yn rhannu'r wobwr rhyngddynt. Os bydd ymgeisydd buddugol yn methu â rhoi gwybod i'r Sefydliad Ffiseg beth yw enw ei ysgol, neu os bydd yn enwebu mwy nag un ysgol, bydd gan y Sefydliad Ffiseg yr hawl i enwebu neu ddewis yr ysgol sy'n addas i gael y wobwr.
18. Bydd y ddau sy'n ail yn cael £500/€600 yr un, a bydd chwe gwobr o £250/€300 yn cael eu dyfarnu i gais rhagorol o bob grŵp oedran, o 11 i 16.
19. Bydd penderfyniadau'r beirniaid yn derfynol ac ni ellir apelio yn erbyn y canlyniadau.
20. Bydd enwau enillwyr y gwobrau'n cael eu cyhoeddi ym mis Mehefin 2023.
21. Bydd pob gwobr yn cael ei thalu i'r rhiant/gofalwr neu'r athro/athrawes a gyflwynodd y cais, a'u cyfrifoldeb nhw fydd sicrhau bod y wobwr yn cael ei rhoi i'r ymgeiswyr.
22. Ni ellir cyfnewid na throsglwyddo unrhyw wobrau.
23. Os na ellir cysylltu ag enillydd cyn pen 30 diwrnod, gellir datgan bod y cais yn annilys a gellir dewis enillydd newydd.

Pethau pwysig i'w nodi...

24. Ni chaniateir llên-ladrata: rhaid mai gwaith gwreiddiol yr ymgeisydd yw'r cais, a rhaid nad yw wedi'i gyhoeddi yn unrhyw le arall ac nad yw wedi'i ddefnyddio i gymryd rhan mewn cystadlaethau eraill. Drwy gymryd rhan yn y gystadleuaeth, mae'r unigolyn sy'n cyflwyno'r cais yn rhoi cadarnhad i'r Sefydliad Ffiseg: mai gwaith gwreiddiol yw'r cais, a grëwyd gan yr ymgeisydd/ymgeiswyr yn unig; ac nad yw'r cais yn torri hawlfraint neu'n tresmasu ar hawliau eiddo deallusol eraill unrhyw drydydd parti.

25. Cyfrifoldeb yr athro/athrawes neu'r rhiant/gofalwr yw rhoi gwybod i ni am unrhyw newid i'w manylion cyswllt, os bydd y manylion hynny'n newid yn ystod y gystadleuaeth. Peidiwch ag anfon unrhyw fanylion cyswllt ar gyfer y myfyrwyr atom.
26. Rhaid bod unrhyw brosiectau sy'n golygu rhyngweithio â phobl neu ddefnyddio sylweddau neu ddyfeisiau peryglus yn cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol ynghylch iechyd a diogelwch a chanllawiau sefydliad addysgol yr ymgeisydd.
27. Ni all y Sefydliad Ffiseg dderbyn cyfrifoldeb am geisiadau nad ydynt yn dod i law, neu geisiadau sy'n dod i law ar ôl y dyddiad cau oherwydd nam technegol neu reswm arall.
28. Ni chaniateir unrhyw geisiadau gan weithwyr y Sefydliad Ffiseg neu unrhyw un sy'n gysylltiedig â'r gystadleuaeth, gan gynnwys aelodau o'u teulu agosaf.
29. Mae'r Sefydliad Ffiseg yn cadw'r hawl i newid rheolau'r gystadleuaeth hon, neu ganslo neu ddiwygio'r gystadleuaeth, yn ddirybudd.
30. Gellir gwrthod unrhyw gais, ac mae'r Sefydliad Ffiseg yn cadw'r hawl i beidio â dyfarnu rhai o'r gwobrau neu bob un ohonynt os nad yw'r ceisiadau yn bodloni'r gofynion, yn unol â phenderfyniad y beirniaid.
31. Ni fydd y Sefydliad Ffiseg yn atebol am unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chymryd rhan yn y gystadleuaeth.
32. Bydd data personol yn cael ei brosesu gan y Sefydliad Ffiseg yn unol â Deddf Diogelu Data 2018. Mae rhagor o fanylion i'w cael yma <http://www.iop.org/privacy/index.html>
33. Caiff y telerau a'r amodau hyn eu llywodraethu gan gyfraith Lloegr.

I weld rhagor o gynghorion, syniadau ac adnoddau, ewch i www.theeurekas.co.uk

Mae croeso i chi anfon ebost i campaigns@iop.org os oes gennych unrhyw gwestiynau am 'The Eurekas'.

Dyma'r canllawiau a'r telerau a'r amodau llawn ar gyfer cystadleuaeth 'The Eurekas'. Drwy gyflwyno cais, rydych yn cadarnhau eich bod wedi darllen a'ch bod yn derbyn y telerau hyn. Caiff y gystadleuaeth ei chynnal gan y Sefydliad Ffiseg/Institute of Physics ('IOP'), 37 Caledonian Road, London, N1 9BU, UK.

Mae'r cyfnod ar gyfer cyflwyno ceisiadau ar-lein yn agor ar 27 Mawrth 2023 ac yn cau ar 12 Mehefin 2023